Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



# Porthmadog - y cyd-destun ehangach

Cynllun Rheoli Traethlin - mae'n amlinellu dull strategol ar y cyd ar gyfer rheoli'r morlin rhag llifogydd arfordirol a pherygl o erydu. Mae Porthmadog o fewn Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2. Mae'r ddogfen hon yn datgan y polisi a ffefrir yn y lleoliad hwn o "Gynnal y Llinell" hyd at 2105. Mae hyn yn golygu mai'r nod yw cynnal neu newid safon gyfredol o amddiffyn yr arfordir.



## Yr Amgylchedd Naturiol

Mae'r ardal astudio hon yn ffurfio cymysgedd pwysig o gynefinoedd arfordirol, gwlypdir a choetir sy'n gweithredu fel coridorau gwych i'r cefn gwlad amgylchynol. Adlewyrchir pwysigrwydd amgylcheddol yr ardal hon mewn niferoedd mawr o gynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig.

Mae llawer o'r rhain o bwysigrwydd Cenedlaethol a Rhyngwladol ac mae'r rhain dan fygythiad yn sgil effeithiau llifogydd a newid yn yr hinsawdd.

## Tirlun

Mae angen ystyriaeth ofalus ar harddwch naturiol eithriadol yr ardal â'i chysylltiad agos â Pharc Cenedlaethol Eryri wrth gynllunio prosiect.

## Hamdden

Mae'r ardal astudio yn cynnig sawl cyfle ar gyfer difyrrwch hamdden amrywiol. Bydd y rhain hefyd yn cael eu hystyried yn ofalus, gan eu bod o bwysigrwydd hanfodol i iechyd a lles pobl, a hefyd yn dod ag incwm i'r gymuned.

## Bywoliaethau

## Bywoliaethau

Efallai y bydd tirfeddianwyr a ffermwyr wedi sylwi bod yr amgylchedd yn newid ac rydym eisiau clywed eich pryderon a'ch syniadau am addasu.

## Yr Amgylchedd Hanesyddol

Mae gan yr ardal sy'n amgylchynu Porthmadog hanes hir a diddorol iawn ac yn un lle mae bodau dynol wedi dewis ymgartrefu ers y cyfnodau cynharaf. Mae'r morlin yma wedi newid yn aml dros amser, yn wir, dim ond yn 1811 pan adeiladodd William Maddocks y cob ar draws ceg yr aber y cafodd llawer o'r ardal rydym yn edrych arni heddiw ei hadfer o'r môr.

Yn bwysig, mae hyn yn golygu bod gan lawer o'r nodweddion rheoli dŵr, megis glannau, llifddorau a gatiau llanw bwysigrwydd hanesyddol ac efallai y bydd yn rhaid cael caniatâd i weithio arnynt. Mae llawer o'r strwythurau cyfredol hefyd yn gysylltiedig â'r diwydiant llechi, y mae ei phwysigrwydd wedi'i chydnabod yn ddiweddar trwy ganiatáu Safleoedd Treftadaeth y Byd i Dirlun Llechi Gogledd-orllewin Cymru. Rydym wedi comisiynu astudiaeth archeolegol arbenigol i'n helpu ni i ddylunio newidiadau i'r dyfodol wrth sicrhau ein bod yn parchu'r gorffennol.

## Gwasgfa arfordirol

Lle mae strwythurau dynol wedi'u hadeiladu i amddiffyn cymunedau a thir rhag llifogydd ac erydiad arfordirol, megis waliau môr neu wrthgloddiau creigiau, gellir atal y cynefin rhag symud tuag at y tir wrth i lefelau môr godi wrth iddo barhau i gael ei golli o'r glan isaf.

Gelwir hyn yn 'wasgfa arfordirol'sy'n golygu bod maint a swyddogaeth y morfa heli yn gostwng dros amser, ynghyd â'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n ei gefnogi.Mae llawer o gynefinoedd morfa heli wedi'u diogelu'n gyfreithiol.

Golyga hyn bod rheidrwydd ar Lywodraeth y DU i greu morfa heli newydd yn lle unrhyw gynefin a fydd yn cael ei golli yn y dyfodol wrth i lefel y môr godi.

Os oes gennych unrhyw syniadau neu awgrymiadau am welliannau amgylcheddol y gallwn helpu i'w **cyflwyno trwy ein gwaith, rhowch wybod i ni ar y ffurflenni adborth.**